# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# PARTNERIAETH OGWEN 2025

PARTNERIAETH OGWEN



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Gweledigaeth | 4 |
| Llwybr Trawsnewid | 5 |
| Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd | 9 |
| Cymuned | 11 |
| Amgylchedd | 25 |
| Iaith a Diwylliant | 29 |
| Economi | 31 |
| Materion Corfforaethol | 41 |
| Crynodeb Ariannol | 43 |
| Casgliad | 44 |






# Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn gofnod o waith Partneriaeth Ogwen yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2024 a Tachwedd 2025. Mae’r adroddiad yn crynhoi prif brosiectau’r Bartneriaeth gan dynnu sylw at ymdrechion staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen yn ystod y flwyddyn.

***Cyd-greu dyfodol lle mae’r economi, yr iaith a’r diwylliant, yr amgylchedd a’n cymuned yn ffynnu.***


# Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen

Yn unol â'n cynllun busnes, gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu cymuned a sefydliad cydnerth sy'n gweithredu'n arloesol er budd cymunedau, economi ac amgylchedd Dyffryn Ogwen.

Rydym yn amcanu i wneud hyn trwy:

- Gryfhau seiliau'r sefydliad gan gynyddu'n cymhwysedd staffio i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau o'r ansawdd uchaf.
- Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd.
- Atgyfnerthu ein polisïau a gweithdrefnau mewnol i warchod ein staff a gwirfoddolwyr.
- Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn, cynaliadwy a chydnerth.
- Cydweithio yn arloesol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.

Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n holl weithgareddau ac yn cwmpasu cynaladwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.



# Llwybr Trawsnewid Partneriaeth Ogwen

Yn 2021, mabwysiadwyd Llwybr Trawsnewid (Theory of Change) sy'n gosod amcanion a deilliannau byrdymor a hir dymor i'n gwaith a gosod fframwaith i fesur effaith ein prosiectau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cydfynd â'r targedau a amlinellwyd yn ein Llwybr Trawsnewid ac atodir dadansoddiad o'n cyrhaeddiad yn erbyn allbynnau a deilliannau'r cynllun hwnnw yn Atodiad 1.

# LLWYBR TRAWSNEWID PARTNERIAETH OGWEN

PARTNERIAETH OGWEN

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD CYMUNEDOL** | | | | |
| **CYNNAL CYMUNED GYNHWYSOL**<br><br>Yn ôl arolwg cymunedol 2020, roedd 82% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned.<br>Roedd 83% o ymatebwyr hefyd yn teimlo i raddau bod pobl yna i'w helpu os oes angen.<br><br>Dim ond 8% o ymatebwyr arolwg cymunedol 2020 oedd dan 25 oed. | Cynnal swyddfa Ogwen ar y Stryd Fawr fel pwynt cyswllt ar gyfer 3 Chyngor Cymuned y dalgylch.<br><br>Darparu gwasanaeth clercio i'r 3 chyngor cymuned.<br><br>Datblygu cyfleon gwirfoddoli amrywiol trwy brosiectau Dyffryn Gwyrdd, Siop Ogwen a Chadwyn Ogwen.<br><br>Ymgynghori â pobl ifanc a darparu profiadau gwaith, prentisiaethau, cyflogaeth a phrofiadau gwirfoddoli amrywiol iddynt. | 1300 o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Ogwen bob blwyddyn.<br><br>Gwasanaeth clercio o safon i 3 chyngor cymuned.<br><br>Trefn recriwtio, cofnodi a chefnogi gwirfoddolwyr mewn lle.<br><br>3 o bobl ifanc (16-24 oed) yn gwirfoddoli/gweithio efo Partneriaeth Ogwen bob blwyddyn. | Mwy o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli a chyfrannogi yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Cyswllt agosach rhwng y gymuned a'r 3 Chyngor Cymuned lleol.<br><br>Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn eu cymunedau a mwy o arweinwyr cymunedol. | Cyfranogiad uwch gan ein cymuned a phobl ifanc mewn prosiectau datblygu cymunedol a democratiaeth lleol.<br><br>Iechyd a Lles ac ymdeimlad o berthyn yn cynyddu yn ein cymuned. |
| **ATAL TLODI AC UNIGEDD**<br><br>Mae tair o wardiau DO ymhlith y 25% mwyaf difreitiedig yng Nghymru<br><br>Mae 1458 o ddefnyddwyr i'r banc bwyd lleol rhwng mis Mawrth 2020 a Mai 2021.<br><br>Nid oes gan 26.6% o drigolion lleol fynediad at gar a mae cludiant yn broblem iddynt<br><br>7.2% o drigolion y dyffryn yn byw mewn tlodi tanwydd o gymharu a cyfartaledd Cymru o 2.3% | Datblygu cynllun a Hwb Dyffryn Gwyrdd i atal tlodi yn Nyffryn Ogwen yn cynnwys prosiectau penodol i fynd i'r afael a thlodi tanwydd, tlodi bwyd a thlodi trafnidiaeth.<br><br>Datblygu Banc Bwyd a Chynllun Rhannu Bwyd Dyffryn Ogwen trwy ddosbarthu bwyd a chydlynu tim o wirfoddolwyr.<br><br>Datblygu Cynllun Cyfaill Cymunedol i ddanfon prydau poeth, lleihau unigedd a hyrwyddo cynhwysiant digidol.<br><br>Sefydlu cynllun cludiant cymunedol gwyrdd fydd yn cludo trigolion mewn tlodi trafnidiaeth i apwyntiadau meddygol, gwaith a chymdeithasol. | Cyfeirio 300 o drigolion at wasanaethau cymorth Dyffryn Gwyrdd ac asiantaethau eraill bob blwyddyn<br><br>1000 o becynnau cymorth bwyd yn cael eu rhannu bob blwyddyn.<br><br>1000 o brydau Cyfaill Cymunedol yn cael eu darparu bob blwyddyn.<br><br>100 o deithiau blynyddol yn y cerbyd cymunedol | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu allan o dlodi ac unigedd. | Llai o dlodi yn Nyffryn Ogwen gyda llai o bobl yn gorfod defnyddio'r banc bwyd a llai o bobl mewn tlodi trafnidiaeth.<br><br>Cydweithio agosach gyda asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth i drigolion sy'n dioddef tlodi ac unigedd. |

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD AMGYLCHEDDOL** | | | | |
| **PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESIANT**<br>Mae nifer o brosiectau tyfu cymunedol yn y dyffryn ac awydd i blannu mwy at ddibenion atal tlodi bwyd a llesiant. | Prosiect Dyffryn Gwyrdd i arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd yn cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol (e.e. Sesiynau Efeicio a Sesiynau Plannu Cymunedol)<br>Ardaloedd gwyrdd cymunedol newydd i gael eu adnabod a'u datblygu. | 50 o sesiynau llesiant a'r amgylchedd wedi eu cynnal.<br>3 ardal werdd gymunedol wedi eu datblygu a gardd Llys Dafydd wedi ei adfywio'n natur gyfeillgar. | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth i ddod allan o dlodi tanwydd.<br>Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol yn dod a buddion llesiant ac amgylcheddol.<br>Mwy o ardaloedd gwyrdd yn cael eu cynnal yn lleol. | Ol troed carbon y Dyffryn yn lleihau.<br>Cydweithio agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ceisio atal tlodi tanwydd a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. |
| **TACLO NEWID HINSAWDD**<br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd<br>Atal newid hinsawdd yn bwysig i 81% o'r ymatebwyr.<br>Roedd 87% o'r ymatebwyr yn cytuno bod gennym gyfle i greu amgylchedd a chymuned gynaliadwy. | Prosiect GwyrddNi i ddechrau yn 2021 gyda bwriad i ddatblygu Cynulliad Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen.<br>Prosiectau amgylcheddol newydd yn cael eu sefydlu yn cynnwys bws gwennol trydan a cherbyd trydan cymunedol. | Cynulliad Newid Hinsawdd wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.<br>Gwasanaeth bws gwennol a cherbydau trydan wedi ei sefydlu. | Pobl leol yn cydweithio i daclo newid hinsawdd<br>Llai o allyriadau carbon yn y Parc Cenedlaethol. | Dyffryn Ogwen yn arwain o ran datblygu cynaladwy cymunedol.<br>Math newydd o dwristiaid yn dod i'r ardal ac yn cefnogi'r economi leol. |
| **CREU BUDD IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL** | | | | |
| Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 85% o ymatebwyr yn credu fod Dyffryn Ogwen yn gyfoethog o ran iaith, diwylliant a threftadaeth.<br>Roedd 59% yn poeni am ddyfodol y Gymraeg. | Parhau i gynnal gweithleoedd, cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ogwen.<br>Parhau i gefnogi datblygiad Siop Ogwen – siop lyfrau Gymraeg a chrefftau ar y Stryd Fawr Bethesda.<br>Arwain prosiectau diwylliannol perthnasol e.e. dathliadau 200 mlwyddiant Bethesda<br>Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau lleol | 3 gweithle cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal gan Bartneriaeth<br>Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ar y Stryd Fawr a chynyddu gwerthiant arlein ac mewn marchnadoedd lleol.<br>5 digwyddiad/gweithgaredd treftadaeth bob blwyddyn<br>50 o fusnesau yn defnyddio'r Gymraeg ar ogwen.cymru a Cadwyn Ogwen. | Mwy o weithleoedd cyfrwng Cymraeg.<br>Mwy o gyfleoedd i weithio yn Gymraeg<br>Pobl leol yn cael cyfle i ddathlu treftadaeth a diwylliant<br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau. | Normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gwaith<br>Codi hyder pobl i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith.<br>Cynnal y Gymraeg a'r diwylliant yn lleol<br>Mwy o statws i'r Gymraeg ymysg y sector fusnes. |

PARTNERIAETH OGWEN

| Cyd-destun | Gweithgareddau | Allbynnau | Deilliannau Byr Dymor | Impact Hir Dymor |
|---|---|---|---|---|
| **CREU BUDD ECONOMAIDD** | | | | |
| **ADFYWIO STRYD FAWR A CHEFNOGI BUSNESAU BACH**<br><br>Mae nifer y siopau sydd wedi cau ar Stryd Fawr Bethesda ar gynnydd a busnesau bach a chanolig yn wynebu cyfnod anodd yn sgil Covid-19.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 74% yn teimlo nad oedd cyfleoedd gwaith addas ar gael yn lleol a 71% yn credu nad oedd digon o gyfleoedd i ehangu sgiliau a busnes.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 88% yn credu fod prynu cynnyrch lleol yn bwysig. | Prynu adeiladau gwag ar y Stryd Fawr i'w cadw mewn perchnogaeth leol a'u rhentu allan i fusnesau eraill neu gynnal prosiectau ohonynt.<br><br>Datblygu gwasanaeth Cadwyn Ogwen – gwasanaeth archebu a danfon cynnyrch lleol mewn cerbyd trydan cymunedol.<br><br>Darparu gwasanaethau cefnogi busnes ar lefel micro yn ein cymunedau.<br><br>Cynnal gwefan www.ogwen.cymru<br><br>Trefnu gweithgareddau i adfywio'r Stryd Fawr yn cynnwys digwyddiadau yn Llys Dafydd. | 90% o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flwyddyn.<br><br>20 o fusnesau lleol yn gwerthu ar blatfform Cadwyn Ogwen.<br><br>Cydweithio neu gefnogi 30 o fusnesau lleol bob blwyddyn.<br><br>Cynyddu y nifer o fusnesau lleol sydd efo presenoldeb ar wefan www.ogwen.cymru<br><br>Cynnal 10 o ddigwyddiadau yn Llys Dafydd bob blwyddyn gan gofnodi cynnydd footfall y Stryd Fawr ar system fonitro Patrwm. | Mwy o siopau ar agor ar y Stryd Fawr.<br><br>Cynhyrchwyr lleol efo 'outlet' lleol ar-lein i'w cynnyrch.<br><br>Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu<br><br>Mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr. | Pobl leol yn cefnogi busnesau lleol.<br><br>Busnesau micro lleol yn tyfu a ffynnu.<br><br>Buddsoddwyr preifat yn agor siopau yn yr ardal. |
| **ECONOMI WERDD** | Datblygu Canolfan Cefnfaes fel Canolfan Ragoriaeth Cynaladwyedd gyda gofod byncws, datblygu economaidd a gofod amlbwrpas i'w logi allan.<br><br>Datblygu prosiectau twristiaeth Gynaliadwy a Chymunedol<br><br>Paratoi ceisiadau grant i sefydlu bws gwennol trydan fyddai'n cludo ymwelwyr o Ddyffryn Ogwen i fyny i Nant Ffrancon ac yn ol. | Canolfan Cefnfaes wedi ei adnewyddu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Prosiect Twristiaeth Gymunedol Dolan wedi ei ddatblygu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Cynllun Bws Gwennol Trydan wedi ei sefydlu erbyn 2022. | Ased cymunedol wedi ei uwchraddio er budd ein cymuned, amgylchedd ac economi.<br><br>Cymunedoli'r sector dwristiaeth yn lleol a lle'n bosibl, perchnogi rhai asedau twristaidd.<br><br>Lleihau problemau parcio yn Nant Ffrancon a chynyddu'r budd economaidd lleol gan dwristiaid i'r ardal. | Cryfhau'r budd cymunedol ac amgylcheddol o dwristiaeth. |

PARTNERIAETH OGWEN

# Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd Partneriaeth Ogwen

Prif Swyddog Gweithredol – Donna Watts
Rheolwr Cyllid ac Eiddo – Lliwen Morris
Clerc – Caroline Jones
Clerc - Sara Jones
Gofalwr Eiddo – Dylan Jones
Gyrrwr Cymunedol – Colin Jeffreys
Gyrrwr Cymunedol – Evan Thomas
Gyrrwr Cymunedol – Dewi Roberts
Cyfaill Cymunedol – Linda Brown
Swyddog Hwb Ogwen – Ianto Shea
Swyddog Cynnal – Barry Roberts
Rheolwr Hwb Ogwen – Marie Hodson
Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi – Chris Roberts
Swyddog Marchnata a Gweinyddol – Anna Jones
Rheolwr Prosiectau Economi Leol – Robyn Meredydd
Swyddog Cefnogi Prosiectau – Esme Sethi
Swyddog Beics Ogwen – Morgan Griffith
Garddwr Cymunedol – Barry Roberts
Swyddog Llyfrgell Petha - Becca Hughes

**Wedi gadael i swyddi newydd yn ystod y cyfnod –**
Hannah Ashton - Hughes - Clerc
Huw Davies - Rheolwr Dyffryn Caredig
Bethan Roberts - Rheolwr Gwasanaeth Clercio
Kyle Locke - Swyddog Beics Ogwen
Mentor Marchnata Cymunedol - Abbie Jones

**Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen**
Dafydd Meurig
Einir Williams
Rheinallt Puw
Cyngor Cymuned Bethesda (Cynrychiolir gan Neville Hughes, Dyfrig Jones, Michael Williams, Bleddyn Williams a Paul Rowlinson)
Cyngor Cymuned Llanllechid (Cynrychiolir gan Lowri Evans)
Cyngor Cymuned Llandygai (Mair Owen Pierce a Dafydd Owen)

**Pwyllgor Rheoli**
Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddirprwyaeth o Fwrdd llawn Partneriaeth Ogwen ac yn gynrychioladol o'r tri chyngor cymuned lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod bob deufis i fonitro rhaglen waith Partneriaeth Ogwen. Y Pwyllgor Rheoli yw:

Neville Hughes – Cynghorydd Cymuned Bethesda
Dafydd Meurig – Cynghorydd Sir
Lowri Evans – Cynghorydd Cymuned Llanllechid
Dyfrig Jones – Cadeirydd Partneriaeth Ogwen a Cynghorydd Cymuned Bethesda
Einir Williams – Cynghorydd Sir
Mair Pierce – Cynghorydd Cymuned Llandygai
Rheinallt Puw – Cynghorydd Sir



*Rhai o staff y Bartneriaeth - Rhagfyr 2025*

# CYMUNED




## CYNNAL CYMUNED GYNHWYSOL

Mae helpu ein cymuned yn greiddiol i holl weithgarwch Partneriaeth Ogwen a mae'n gwasanaethau cymunedol wedi cynyddu yn 2025.

**Cynghorau Cymuned**
Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth clercio i dri Chyngor Cymuned - Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai a Chyngor Cymuned Llanllechid. Mae'r gwaith clercio yn cynnwys trefnu, paratoi dogfennau a chofnodi yng nghyfarfodydd y Cyngor, delio â gohebiaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd a rheoli cyllid ar ran y Cynghorau. Mae'r Clercod yn arwain hefyd gyda gwaith ychwanegol megis cydlynu trefn taliadau pori Pwyllgor Mynydd Llanllechid a threfnu Is-bwyllgorau Cyllid y cynghorau. Darperir y gwasanaeth gan dîm o staff proffesiynol sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel i'r cynghorau.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Bethesda, cyflogir Barry Roberts hefyd fel Swyddog Cynnal i gasglu sbwriel yn yr ardal.

Yn ogystal â'r gwaith clercio, mae'r clercod wedi cefnogi gwelliannau ar y gof-golofnau ym Methesda, ariannu'r Clwb Ieunectid, pwyso ar faterion traffig yn yr ardal ac arwain ar y prosiect Murlun Canolfan Tregarth a Murlun Cysgodfan Bws yn Nhalybont.



*Canolfan Cefnfaes, Bethesda - Canolfan Gymunedol a un o swyddfeyd Partneriaeth Ogwen*

**Swyddfeydd Partneriaeth Ogwen**

Mae gan Bartneriaeth Ogwen 3 gweithle/man gwaith i staff. Mae rhain yn cynnwys Swyddfa Partneriaeth Ogwen, Hwb Ogwen a swyddfa yng Nghanolfan Cefnfaes.

Mae ymwelwyr a'r swyddfeydd yn parhau'n gyson ac yn amrywio o ymholiadau gan gynhgorwyr cymuned, ymholiadau am yr heddlu, ceisiadau am gymorth neu ymholiadau am wasanaethau.

**Gwirfoddoli**

Mae gan Bartneriaeth Ogwen 32 o wirfoddolwyr sefydlog sy'n helpu gyda phrosiectau ymarferol y Bartneriaeth. Mae gennym hefyd gynghorwyr sir a chymuned sy'n goruchwylio ein gwaith ar Bwyllgor Rheoli Partneriaeth Ogwen. Rydym hefyd yn cydweithio gyda'r ysgolion lleol i gynnig profiadau gwirfoddoli ystyrlon i blant a phobl ifanc lleol.

Mae 49 person ifanc o'r ysgolion uwchradd wedi cael cyfle i wirfoddoli dros y flwyddyn diwethaf.  Mae'r profiadau gwirfoddoli yn amrywio o gymryd rhan yn y sesiynau casglu sbwriel, gwirfoddoli gyda Siop Ogwen, amryw o wasanaethau gyrru, ac hefyd garddio cymunedol.

# ATAL TLODI

Mae Hwb Ogwen yn parhau i fod yn hwb cymunedol sy'n darparu cyngor i drigolion lleol i atal tlodi. Gwneir hyn mewn sesiynau galw heibio ble mae trigolion lleol yn gallu cael pecynnau bwyd argyfwng, talebau tanwydd drwy'r Fuel Bank Foundation a chyngor arbed ynni ac arbed arian.




*Canolfan Hwb Ogwen, 27 Stryd Fawr Bethesda*

Ers mis Ionawr 2025, rydym wedi cyflawni'r canlynol –

- **3115** o ymwelwyr i Hwb Ogwen rhwng Ionawr a diwedd Tachwedd 2025
- **270** o ymwelwyr newydd wedi ymweld a'r Hwb
- **686** Food Packs distributed and **6** further referrals to Arfon or Bangor Food Bank
- **203** Taleb Tanwydd wedi ei ddosbarthu oedd yn werth **£15,492**
- **5** SIM Card wedi ei dosbarthu
- **56** person wedi ymweld â Chyngor ar Bopeth
- **149** wedi derbyn cymorth gan y Swyddog Hwb ar nifer o faterion, e.e. cymorth ar geisiadau budd daliadau, ceisiadau budd daliadau, cymorth gyda llenwi ffurflenni megis ceisiadau bathodyn glas
- **12** o becynnau Gaeaf wedi eu dosbarthu

## Cydweithio gyda phartneriaid




Yn ogystal â gwasanaeth gan staff Hwb Ogwen, mae'n staff wedi trefnu sesiynau galw heibio gyda Chyngor ar Bopeth, Citizens Online, Busnes Cymru, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, GISDA, Cartrefi Iach, a Gofalwyr di-dal.

Mae'r cyllidwyr canlynol wedi cyfrannu at gostau rhedeg Hwb Ogwen yn ystod 2025 – Cyngor Gwynedd-Cronfa Ffyniant Cyffredin a Chronfa Costau Byw.

Rydym hefyd wedi derbyn rhoddion hael iawn (arian parod a bwydydd) gan-

Eglwys Tal y Bont, Capel Carmel, Neville ac Angharad Hughes, Cynghorau Cymuned Bethesda, Llandygai a Llanllechid, Ysgolion lleol, Capel Bethlehem, Eglwys Gelli, Eglwys Llandygai, Capel Shiloh, ac Eglwys St Ann's a & St Mair.

Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i bawb sydd yn rhoi cynnyrch yn y fasged parhaol yn Spar.

## Cyfaill Cymunedol

Mae Linda wedi bod yn perfformio rôl hanfodol fel Cyfaill Cymunedol, gan gynnig cwmnïaeth a chefnogaeth emosiynol i drigolion hŷn ac unig yr ardal. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella lles ac ymdeimlad cymdeithasol hyd at 15 o unigolion bob wythnos, llawer ohonynt efallai yn ynysig yn gymdeithasol oherwydd oedran, problemau iechyd a symudedd, neu ddiffyg presenoldeb teulu.



Mae ymweliadau Linda yn cynnwys gwiriadau rheolaidd a threulio amser o safon gyda'r unigolion hŷn hyn. Mae'r gweithgareddau'n amrywio ac yn dibynnu ar anghenion a dewisiadau pob unigolyn, ond maent yn nodweddiadol yn cynnwys:

- Sgyrsiau cyfeillgar
- Eu hebrwng ar deithiau cerdded neu i gyfleusterau lleol
- Cynnig clust i wrando ar eu pryderon
- Darparu cymorth ysgafn gyda thasgau dyddiol

Mae'r rhyngweithio hwn yn darparu cwmnïaeth fawr ei hangen. Mae hyn yn helpu i leddfu teimladau o unigrwydd, sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a chorfforol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth hŷn.

Mae rôl Linda yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned ac yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, sy'n broblem gynyddol ymhlith pobl hŷn. Drwy ymweld yn rheolaidd a chysylltu â'r unigolion hyn, mae Linda:

- Yn gwella eu hwyliau a'u lles meddyliol
- Yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol pan fo'n bosib
- Yn darparu system anffurfiol o gefnogaeth emosiynol, gan roi rhywun iddynt siarad â nhw'n rheolaidd

Mae'r bobl y mae Linda yn ymweld â nhw yn aml yn mynegi gwerthfawrogiad am ei chwmni, gan bwysleisio sut mae ei hymweliadau yn rhoi rhywbeth iddyn nhw edrych ymlaen ato ac yn torri ar undonedd eu hwythnos.

Mae cyfraniad Linda fel Cyfaill Cymunedol yn hynod werthfawr. Mae'n darparu cefnogaeth emosiynol hanfodol i aelodau bregus ein cymuned, gan eu helpu i gynnal cysylltiad â'r byd allanol. Nid yn unig mae ei gwaith yn cael effaith ar fywydau'r henoed y mae'n ymweld â nhw ond hefyd yn cyfoethogi'r gymuned drwy feithrin ymdeimlad o gymdeithasgarwch a thosturi.




# DYFFRYN CAREDIG

Sefydlwyd y Dyffryn Caredig yn Nhachwedd 2023 a hynny gyda chefnogaeth cronfa Pawb a'i Le Cronfa Gymunedol y Loteri. Dilynodd hyn waith blaenorol y Dyffryn Gwyrdd, ond mae'r prosiect hwn gyda phwyslais penodol ar drafnidiaeth cymunedol.


Yn ystod 2025, adeiladwyd ar lwyddiant blwyddyn gyntaf prosiect Dyffryn Caredig a dyma drosolwg o'r hyn a gyflanwyd yn ystod cyfnod o ddwy flynedd y prosiect. Gan ddefnyddio fflyd o pump cerbyd 100% trydan, cwblhawyd 2,891 o deithiau gyda 6,546 o deithwyr dros gyfnod o 24 mis. Roedd y rhain yn amrywio o deithiau byrion yn ein cerbyd MPV (eFan) i'r feddygfa ym Methesda, i gludiant dyddiol i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn y ddau fws mini, a chasgliadau a danfoniadau bwyd yn y fan fach wen (TryFan).

Elfen arall o'r prosiect sydd wedi tyfu'n gyflym yw'r teithiau llesiant ar ddydd Sadwrn i drigolion lleol. Bu'r rhain yn arbennig o boblogaidd yn ystod y gwanwyn a'r haf, yn enwedig ymhlith yr henoed, gan gynnwys teithiau i gyrchfannau lleol, ar hyd yr arfordir ac, ar adegau, dros y ffin.

Deilliant sylweddol o brosiect Dyffryn Caredig, un sy'n hollbwysig wrth i gymunedau geisio lliniaru effaith cynhesu byd-eang yw lleihau'n allyriadau carbon. Rhwng y pump cerbyd nodwyd uchod, rydym wedi trafeilio 66,522 o filltiroedd, ag rydym wedi arbed 21.1 tunnell o garbon deuocsid.

Dosraniad o’r teithiau trydan:

Apwyntiadau Meddygol: 353
Cynnal a Chadw: 66
Bwyd: 199
Staff: 86
Cinio Caffi Coed Y Brenin: 81
Cludiant cymunedol: 783
Cludiant disgyblion ysgol: 559
Cylchdeithiau: 64
Digwyddiadau: 53
HiyaCar Test: 3
Teithiau iechyd a lles: 440
Teithiau siopa bwyd: 75
Car Co-Wheels: 129




*Dosraniad teithiau cymunedol Dyffryn Caredig Rhagfyr 2023 - Tachwedd 2025*

Mae ‘cludiant cymunedol’ yn gynnwys sawl taith gwahanol:
- i gwaith
- i ddosbarthiadau: dysgu Cymraeg
- i glybiau cymunedol: Clwb Y Dyffryn, Clwb Dementia Actif Bethesda
- i gaffi ar gyfer cymdeithasu
- i Plas Hedd ar gyfer gofal dydd
- i siop torri gwallt

“I get to meet other passengers, and the drivers are very helpful. It means I can go shopping to the bigger supermarkets. These are usually cheaper than the local shops.”

-Aelod Clwb Trafnidiaeth, Holiadur Haf 2025

**Car Cymunedol**

Gyda chytundeb â Co-Wheels wedi dod i ben ddiwedd Hydref 2024, datblygwyd partneriaeth newydd gyda TrydaNi i ddarparu car cymunedol arall (Megan) yn yr ardal. Cychwynnodd y fenter hon ym mis Rhagfyr 2024, ac erbyn Hydref 2025 mae dros 30 o drigolion wedi’i ymuno fel aelodau gyda Chlwb Ceir Cymunedol TrydaNi.

## Gweithio gyda'n Partneriaid

Rydym wedi parhau i weithio gydag ysgolion yr ardal gan gynnwys; Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Llanllechid, Ysgol Rhiwlas, Ysgol Bodfeurig, Ysgol Tregarth, ac Ysgol Abercaseg.

Mae'r teithiau'n cynnwys cludo plant i ddosbarthiadau mewn ysgolion arall, digwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon, a thripiau ysgol.
Rydym hefyd yn cynnig cludiant cymunedol i glybiau a mudiadau cymunedol fel Clwb Y Dyffryn, Clwb Dementia Actif Bethesda, Caffi Coed Y Brenin, Sioe Dyffryn Ogwen, a Charnifal Bethesda.

Yn ogystal â'n amserlen wythnosol, mae Pen Y Bryn Outdoors CIC wedi parhau i ddefnyddio cerbydau ar gyfer digwyddiadau lle maent yn gweithio gydag elusennau gwahanol. Mae Luke Farrar yn parhau i gludo grŵp Eglwys i lefydd amrywiol fel taith iechyd a llês.

# Beics Ogwen

Yn dilyn newidiadau staff, mae Morgan Griffiths wedi ei benodi fel swyddog Beics Ogwen.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg ffurfiol o waith Beics Ogwen rhwng Awst a Rhagfyr 2025 ers i Morgan gychwyn fel Swyddog Beics Ogwen. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd trawsnewidiad sylweddol yn y gweithdy, cryfhau partneriaethau, ehangu'r fflyd o feiciau, a datblygu cyfleoedd ymgysylltu cymunedol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi blaenoriaethau strategol ar gyfer 2026.



Mae Beics Ogwen yn rhan o Brosiect Cludiant Cymunedol Partneriaeth Ogwen ac yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Ein cenhadaeth yw hyrwyddo beicio fel modd cynaliadwy o deithio, gwella llesiant unigolion ac adeiladu cysylltiadau cymunedol cryfach.

**Trawsnewid y Gweithdy**

Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r gweithdy beiciau, gan nodi'r angen am ail-strwythuro sylweddol. Gwnaed newidiadau gan gynnwys ail-drefnu offer, creu llif gwaith systematig, a gwella trefniadaeth a diogelwch. Mae'r gweithdy bellach yn rhoi'r lefel broffesiynol sy'n angenrheidiol ar gyfer atgyweiriadau o safon a hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'r gostyngiad mewn amseroedd atgyweirio a'r gwelliant yn ansawdd gwasanaeth yn amlwg.



**Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol**

Cwblhawyd cwrs cymorth cyntaf yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau safonau diogelwch uchel. Yn y flwyddyn newydd, caiff cwrs Arweinydd Taith Feicio ei gwblhau, gan ganiatáu i Beics Ogwen ddarparu teithiau ffurfiol, diogel ac unol â safonau'r diwydiant. Mae'r hyfforddiant hwn yn fuddsoddiad hanfodol yn ansawdd y gwasanaeth.

**Symud i'r Stryd Fawr**

Mae'r prosiect yn gweithio tuag at symud i safle newydd yn 10–12 Stryd Fawr, Bethesda yn fuan yn 2026 gan wedyn symud i'r Hen Bost - Safle Treftadaeth newydd ddiwedd 2026. Bydd y symudiad hwn yn gwella mynediad, gweladwyedd ac effeithlonrwydd gweithredol. Bydd y gofod newydd yn galluogi gwasanaeth mwy proffesiynol, mwy o weithgareddau cymunedol, a gwell profiad i ddefnyddwyr.

## Effaith ar y Gymuned

Mae Beics Ogwen wedi cyfrannu'n sylweddol at lesiant, gweithgarwch corfforol a chydlyniant cymunedol yn ystod 2025. Mae'r prosiect yn darparu mynediad at feiciau, cyngor, ac ymdeimlad o groeso i unigolion sy'n dymuno gwella eu hiechyd neu eu cysylltiad cymdeithasol. Bydd yr effaith hon yn ehangu ymhellach yn 2026.

## Targedau Strategol ar gyfer 2026

- Ehangu nifer y beiciau trydan a beiciau traddodiadol
- Lansio rhaglen ffurfiol ar gyfer gwirfoddolwyr
- Cynnig rhaglen hyfforddi sgiliau beicio mewn ysgolion lleol
- Sefydlu teithiau llesiant rheolaidd, gan gynnwys teithiau dynion
- Symud i'r safle newydd ar y Stryd Fawr
- Ehangu partneriaethau gyda busnesau ac ysgolion

## Casgliad

Mae'r cyfnod rhwng Awst a Rhagfyr wedi nodi dechrau cam newydd i Beics Ogwen. Mae'r gwaith a gyflawnwyd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer twf a datblygiad sylweddol yn 2026. Diolchwn i'r cyllidwyr, y staff, y partneriaid a'r gymuned am gefnogaeth barhaus.







## PETHA

Trwy gydweithio hefo Menter Môn a chyllid yr Economi Gylchol, ymunodd Becca Hughes â'n tîm fel Swyddog Llyfrgell y Pethau ym mis Ionawr 2025 a dechrau'r gwaith o wahanu Petha Pesda oddi wrth yr endid ar y cyd â Llyfrgell y Pethau Penygroes. Rhoddodd hyn system symlach i Petha Pesda a chaniatáu mwy o hyblygrwydd i ni ehangu.

Parhaon ni i weithio gyda Gwasanaethau Llyfrgelloedd Gwynedd, ac mae tîm y llyfrgell wedi bod yn gefnogol ac yn gymwynasgar iawn wrth wasanaethu cwsmeriaid. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Benthyg Cymru a rhwydwaith llyfrgelloedd pethau ledled Cymru i rannu arfer gorau ac adeiladu ar lwyddiannau.

Ers creu ein system ein hunain ym mis Mawrth, mae aelodaeth wedi codi i gyfanswm o 269 o gwsmeriaid, ac mae 104 o eitemau wedi'u benthyca o'r llyfrgell. Rydym yn cynnig teganau ac eitemau i blant am ddim, ac rydym yn codi swm bach (hyd at £10 am fenthyciad wythnos) am eitemau eraill er mwyn talu costau cynnal a chadw. Dyma ddadansoddiad o'r eitemau mwyaf poblogaidd:

| Categori | Nifer o fenthyciadau |
|---|---|
| Teganau / Gemau Bwrdd | **41** |
| Gemau tu allan | 15 |
| Offer Garddio | 12 |
| Glanhawyr Carpedi | 8 |
| Canopies | 6 |



Er mwyn ehangu mynediad i Petha Pesda, rydym yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Llyfrgell Gylchol i greu loceri a fydd yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad at eitemau y maent yn dymuno eu benthyg y tu allan i oriau gwaith y llyfrgell. Gobeithiwn y bydd y loceri ar waith yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Mae Petha Pesda hefyd wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn rhoddion o offer gan Adra yn ogystal â rhoddion o ddarnau offer ac ategolion gan CL Jones. Mae'r driliau hyn ac eitemau eraill bellach ar gael i'w benthyca trwy'r llyfrgell. Rydym yn gobeithio gweithio gydag Adra eto yn y flwyddyn newydd i ddarparu cyrsiau DIY wedi'u hanelu at fenywod.

Mae Becca wedi gweithio'n agos iawn gyda'r ysgolion cynradd lleol i greu systemau ar gyfer casglu ac ailddosbarthu gwisgoedd ysgol. Mae hi wedi cynnal 7 sesiwn gydag amryw o ysgolion i gynllunio a gwneud cais am gyllid trwy GwyrddNi ar gyfer unedau silffoedd. Mae'r unedau hyn yn cael eu sefydlu mewn mannau hygyrch yn yr ysgolion fel y gall teuluoedd adfer gwisgoedd ysgol yn ôl yr angen trwy gydol y flwyddyn. Gwnaethom hefyd gynnal ymgyrch ailgylchu gwisgoedd ysgol lwyddiannus iawn dros yr haf, gyda 10 sesiwn galw heibio.










Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r prosiectau, rydym wedi cynnal digwyddiadau cerfio pwmpenni'r hydref hwn gan ddefnyddio offer pŵer Petha. Roedd y digwyddiadau hyn yn hynod boblogaidd, gyda 26 o bobl yn ymuno dros dair sesiwn i ddefnyddio'r jig-so, cymysgwyr llaw a driliau llaw i greu pwmpenni cerfiedig gwych yn barod ar gyfer Calan Gaeaf. Gan fod y digwyddiadau hyn mor boblogaidd, byddwn yn bendant yn cynnal mwy yn y dyfodol agos.







PARTNERIAETH OGWEN

# LLWYBR TRAWSNEWID 2025

## CREU BUDD CYMUNEDOL

**1265**

o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Partneriaeth Ogwen






**49**

mudiad wedi llogi ystafell cymunedol yng Nghanolfan Cefnfaes

**49**

o bobl ifanc wedi derbyn gwaith gwirfoddol, prosiect neu cyflogedig

**32**

o wirfoddolwyr yn cael cyfleon amrywiol yn ein Dyffryn bob blwyddyn



## Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gan Bartneriaeth Ogwen bresenoldeb ar amryw o blatfformau cyfryngau cymdeithasol a nifer o ddilynwyr ar y platfformau wedi cynyddu dros y flwyddyn diwethaf



## HWB OGWEN A DYFFRYN CAREDIG

**751** o becynnau bwyd argyfwng wedi'i ddarparu i drigolion lleol


**249** o drigolion lleol wedi derbyn talebau tanwydd

**123** o ddefnyddwyr Hwb Ogwen wedi'i cyfeirio at asiantaethau eraill e.e CAB

**79** o henoed y Dyffryn wedi gweithio efo ni

**825** o drigolion wedi derbyn cludiant i'w helpu i gyrraedd apwyntiadau a digwyddiadau cymdeithasol

# AMGYLCHEDD




## PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESIANT

**Gerddi Cymunedol**

Diolch i grant gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mae Barry Roberts yn gweithio fel garddwr cymunedol yn Nyffryn Ogwen. Eleni mae Gardd Ffrancon a Llys Dafydd wedi datblygu yn dda, a chawsom gnwd da o fwyd yn yr Hydref. Mae Barry yn gweithio ochr yn ochr â thîm o wirfoddolwyr ymroddedig i sicrhau ffyniant y gerddi cymunedol ac mae ein diolch yn fawr iddynt. Eleni fe wnaethom gynnal dau weithdy efo Claire Mace ynglyn a chadw bwyd a'i wneud iddo gadw yn hirach. Roedd y dosbarthiadau yn llawn a gobeithiwn y gallwn gynnal mwy o weithgareddau o'r fath yn y dyfodol i wneud y mwyaf o'r bwyd yr ydym yn ei dyfu yn y gerddi cymunedol.



Datblygiad cyffrous arall oedd cychwyn tyfu blodau i wneud inc yng Ngardd Ffrancon. Dan arweiniad yr artist lleol Caroline Schofield fe wnaethom ddysgu sut i blannu, cadw, a phigo planhigion arbennig i wneud inciau i'w ddefnyddio mewn gwaith celf. Byddwn yn adeiladu ar hyn yn 2026.

Mae Barry hefyd wedi bod yn cynnal a chadw potiau blodau ar hyd yr ardal ac wedi bod yn cyd-weithio hefo criw Balchder Bro i edrych ar ôl y basgedi crôg ar stryd fawr Bethesda.

# TACLO NEWID HINSAWDD






**GwyrddNi**

Mae GwyrddNi yn parhau i wireddu'r Cynllun Gweithredu Cymunedol. Mae uchafbwyntiau eleni yn cynnwys:

Cynllun Ysgolion Creadigol GwyrddNi yng Ngharnifal Bethesda. Gweithiodd GwyrddNi hefo dros 150 o ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 Ysgol Dyffryn Ogwen i greu fflôt a sioe yng Ngharnifal Bethesda. Cafodd y disgyblion gyfle i weithio hefo Angharad Llwyd a Manon Prysor i gynllunio eu neges i'r gymuned. Roeddent eisiau trafod y broblem sbwriel a'r effaith mae'n ei gael ar yr afon a natur yn lleol. Y canlyniad oedd fflôt pwerus hefo baneri slogannau a chymeriadau cofiadwy, a sioe o sgetsys byrion a gafodd ei weld gan dros 2,000 o drigolion lleol yn y carnifal.

Fe wnaethom archebu system sain wedi'i bweru gan feic sydd yn gallu teithio i wahanol digwyddiadau yn y fro. Mae parc wedi ei bweru gan yr offer yno yn un o'r syniadau yn ein cynllun gweithredu ac mae'r system sain yn cychwyn sgwrs am y syniad ac am sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu.





Mae grŵp ysgrifennu creadigol Diosg yn cwrdd yn rheolaidd i fynd am dro, rhannu ac ysgrifennu am y byd o'u cwmpas. Rydym wedi cynnal ambell ddigwyddiad efo siaradwyr gwadd fel Clare E Potter, Sian Northey a Ness Owen. Mae'r sesiynau am ddim ac ar agor i bawb.





Rydym wedi gweithio hefo cynllun Petha i archebu silffoedd yn Ysgol Abercaseg a Ysgol Penybryn i'w wneud yn haws i ddisgyblion rhannu hen wisgoedd ysgol. Mae'n annog ail-ddefnyddio dillad, rhywbeth sydd yn arbed carbon ac yn arbed costau i deuluoedd lleol - mae pawb ar eu hennill!



Eleni rydym wedi prynu set o feiciau trydan newydd fydd ar gael i'w llogi ar sail hir-dymor. Y bwriad yw gweld os gall drigolion newid o deithiau car i deithiau beic a gweithio allan beth yw'r rhywstrau a gweld sut allwn helpu i ddod dros rhain. Mewn cyd-weithrediad â Wild Resources a Partneriaeth Natur Gwynedd rydym wedi lansio Map Ogwen. Cymal cyntaf y gwaith oedd mapio coed derw hynafol yr ardal, ac rydym yn gobeithio gallu mapio mwy o bethau, fel llefydd sydd yn bwysig yn gelfyddol dros y misoedd nesaf.

# LLWYBR TRAWSNEWID 2025

## CREU BUDD AMGYLCHEDDOL


### GWYRDDNI

**34** sesiwn garddio er lles y gymuned wedi eu lleoli yng ngofodau cymunedol Partneriaeth Ogwen

**4** o sesiynau coginio cymunedol gyda chynnyrch a dyfwyd yn y Dyffryn

**2** sesiwn o ddysgu adnabod mwsog yn y Dyffryn

**11** o sesiynau Paned i'r Blaned i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd






**9**

Sesiwn Caffi Trwsio wedi eu cynnal ar y cyd â Chaban Gerlan i godi ymwybyddiaeth o drio trwsio yn lle taflu

**269** o aelodau gan Llyfrgell Petha gyda **104** o fenthyciadau sy'n cyfrannu at leihau prynwriaeth; a diwylliant o rannu ac ailddefnyddio yn ein cymuned.



**33,308**

o filltiroedd gwyrdd wedi ei ddarparu wrth ddefnyddio Bws Ogwen




**150**

o bobl ifanc Ysgol Dyffryn Ogwen wedi creu fflôt a sioe ar gyfer Carnifal Bethesda i godi ymwybyddiaeth o'r broblem sbwriel a'i effaith ar yr amgylchedd

Eu fflôt hefo baneri, sloganau a chymeriadau cofiadwy a'u sioe o sgetsys byrion wedi cael eu gweld gan dros

**2,000**

o drigolion lleol.

wedi cynnal

**102**

sesiwn grŵp yn y Gofod Gwneud, Canolfan Cefnfaes ar gyfer trigolion y gymuned

**292** o drigolion lleol wedi derbyn cyngor arbed ynni trwy brosiectau GwyrddNi, Hwb Ogwen neu Sero Net Gwynedd

# IAITH A DIWYLLIANT

**Digwyddiadau Diwylliannol a Gŵyl Gwenllïan**

Yn ystod 2025, mae Partneriaeth Ogwen wedi cydweithio gyda phartneriaid i ddarparu sawl digwyddiad a gweithdy diwylliannol yn Nyffryn Ogwen.

Mae'r esiamplau mwyaf nodedig yn cynnwys:

- Gweithio gyda Llechi Cymru, Cyngor Gwynedd, Cadw a Dr Dafydd Roberts i fynd a thri grŵp o drigolion i weld y gwaith cadwraeth ar safle'r Hen Ysbyty Chwarel
- Cydlynu cyfle i grŵp o blant o Ysgol Penybryn creu ffilm fer "Ein Hanes Ni" efo Menter Môn. Fe gafodd y plant cyfle i ddysgu am wahanol elfennau o hanes a threftadaeth Dyffryn Ogwen wrth siarad efo haneswyr lleol.
- Cefnogi grŵp creadigol lleol Diosg gyda'u cyfarfodydd bob pythefnos a digwyddiadau amrywiol
- Digwyddiadau llenyddol megis nosweithiau meic agored, dathlu enillwyr llyfr y flwyddyn o Ddyffryn Ogwen, a gweithdai ysgrifennu creadigol i deuluoedd
- Cydweithio efo cwmni theatr Frân Wen ar brosiect "Fa'ma," sef cyfle i bobl ifanc lleol weithio efo artist ac awdur i gyfathrebu eu teimladau tuag at Ddyffryn Ogwen. Cafodd y bobl ifanc yma gyfle i gyflwyno i grŵp o drigolion mewn digwyddiad yn Neuadd Ogwen.
- Gweithio efo clwb ieuenctid ac Ysgol Penybryn i greu baneri ac arwyddion i groesawu Balchder Gogledd Cymru i Fethesda.

Ym mis Mehefin 2025, cynhaliodd Bartneriaeth Ogwen Ŵyl Gwenllïan, sef penwythnos o weithgareddau celfyddydol i ddathlu merched y Carneddau. Roedd yr ŵyl yn cynnwys gig yn Neuadd Ogwen, gweithgareddau celf a chrefft i deuluoedd, digwyddiad llenyddol efo Diosg, a bath gong.




BALCHDER






GŴYL GWENLLÏAN
DATHLU CREADIGRWYDD MERCHED
CELEBRATING FEMALE CREATIVITY
6, 7 & 8
MEHEFIN
2025 JUNE
DATHLIAD I GOFFHAU'R DYWYSOGES GWENLLÏAN, MERCH LLYWELYN EIN LLYW OLAF
A CELEBRATION TO COMMEMORATE PRINCESS GWENLLÏAN, THE DAUGHTER OF LLYWELYN EIN LLYW OLAF
GRŴP DIOSG
PARTNERIAETH OGWEN


fa'ma

PARTNERIAETH OGWEN

# LLWYBR TRAWSNEWID 2025

## CREU BUDD IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL



**3**

gweithle cyfrwng Cymraeg wedi eu cynnal gan Bartneriaeth Ogwen



**15**

o siaradwyr Cymraeg newydd wedi cymryd rhan yn ein gweithdai diwylliannol



**25**

o sesiynau prosiect Diosg i ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol



**40**

o weithdai diwylliannol yn lleol

**Gŵyl Gwenllian**

wedi ei chynnal ym mis Mehefin 2025 ac wedi bod yn llwyddiannus

# ECONOMI

## CEFNOGI BUSNESAU BACH A CHANOLIG AC ADFYWIO'R STRYD FAWR

**Eiddo**

Mae ein portffolio eiddo yn gyfuniad o adeiladau fel a ganlyn:

- Adeiladau rydym wedi'u prynu trwy grant a/neu fenthyciad a/neu reserfau Partneriaeth Ogwen (e.e. 26 a 27 Stryd Fawr ac Adeilad y Spar)
- Adeiladau rydym yn gyfrifol amdanynt trwy gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda
- Adeiladau rydym â phrydles arnynt gan Gyngor Sir Gwynedd (Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen a Chanolfan Cefnfaes)

**Siopau, Fflatiau a Stiwdios i denantiaid lleol**

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i weinyddu unedau ar Stryd Fawr Bethesda dan gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda. Mae pob uned fasnachol yn llawn ac mae'r tenantiaid yn cynnwys:
Tŷ Mo – cwmni lleol sy'n bragu cwrw
Cwmni Bwyd Môr Menai – busnes bwyd môr lleol
Siop 55 – siop nwyddau hen greiriau
Annie's Orphans – siop elusen yn gwerthu dillad, teganau a llyfrau ail law

Rydym hefyd yn llogi 2 stiwdio i gwmnïau creadigol lleol –
9Bach – artistiaid cerddorol sy'n hanu o'r Gerlan
Stiwdio Ffram – cwmni lleol sy'n fframio lluniau.
Mae 6 fflat hefyd yn cael eu llogi i denantiaid lleol a mae unedau masnachol yn cael eu rhentu allan yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae incwm rhent yr eiddo yma yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r adeiladau a chostau rhedeg Partneriaeth Ogwen sy'n cynnwys cyflogi Gofalwr Eiddo un diwrnod yr wythnos.

# EIDDO PARTNERIAETH OGWEN




**16**

o denantiaid yn defnyddio ein gofodau busnes â fflatiau


**5**

tenant fflatiau

**11**


tenant busnes

TŶ MO
MENAI SEAFOOD COMPANY
Black Dragon
Annie's Orphans
9BACH
RELIC
Siop 55



## Swyddfeydd PO

Swyddfa Ogwen
Dyffryn Caredig a Hwb Ogwen
Canolfan Cefnfaes





Dechreuoedd y gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2025.

Tra bod y gwaith adeiladu yn parhau, rydym wedi bod yn gweithio ar greu cysylltiadau gyda phartneriaid fel Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru, Storiel, Castell Penrhyn, Llechi Cymru ymhlith eraill i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fenthyca gwrthrychau o arwyddocâd lleol o gasgliadau.

## Gofod Gwneud

Trwy gyllid Economi Gylchol a Chyngor Gwynedd, mae Gofod Gwneud wedi'i sefydlu yng Nghanolfan Cefnfaes i gynnig mynediad i beiriannau megis argraffydd 3D, argraffydd sychdarthiad a gweisg gwres, torrwr laser a thorrwr finyl.

Gyda chymorth Menter Môn a chyllid yr Economi Gylchol, rydym wedi cynnal bron i 100 o sesiynau, y mwyafrif helaeth ohonynt am ddim, yn y Gofod Gwneud eleni, ac mae dros 550 o bobl wedi mynychu. Mae yna ystod eang o ddigwyddiadau wedi bod, gan gynnwys sesiynau agored gyda thechnegwyr i unigolion a busnesau ddysgu am y peiriannau sydd ar gael, sesiynau i deuluoedd, sesiynau i bobl ifanc, sesiynau gydag ysgolion yn dysgu sgiliau fel gwnïo ac entrepreneuriaeth, a mwy. Cawsom gyfle hefyd i helpu Ysgol Dyffryn Ogwen gyda gwisgoedd ar gyfer eu cynhyrchiad o High School Musical!

| Categori | Sesiynau | Mynychwyr |
|---|---|---|
| Sesiynau Agored | 49 | 71 |
| Ysgolion | 13 | 199 |
| Oedolion | 10 | 66 |
| Pobl ifanc | 8 | 72 |
| Teuluoedd | 16 | 146 |





Rydym hefyd wedi bod yn gweithio efo Caban Gerlan i helpu i sefydlu a darparu cefnogaeth barhaus i'w Caffi Atgyweirio. I helpu'r prosiect hwn rydym wedi helpu gyda marchnata, casglu data a benthyca offer, fel peiriannau gwnïo, pan fo angen.

Bydd Cyllid yr Economi Gylchol yn dod i ben ym mis Mawrth, ac rydym wedi bod yn uwchsgilio staff ac yn gweithio ar ffyrdd o barhau â'r prosiect y tu hwnt i'r dyddiad cau hwnnw.

## Gwasanaethau Cefnogi Busnesau a Mentrau eraill

Mae'r gwaith mentora cyllid yn parhau i ddigwydd yma yn Mhartneriaeth Ogwen. Yn dilyn llwyddiant grant Arfor yn ôl yn 2023, rydym wedi penderfynu parhau gyda'r gwaith yma gan bod galw mawr yn y gymuned am y math yma o waith. Yn ystod 2025, mae Lliwen ein Rheolwr Cyllid wedi llwyddo i sefydlu system cyllid o'r newydd ar gyfer Menter Iaith Gwynedd, ac wedi bod yn gwneud gwaith cyllid ar gyfer Menter Iaith Conwy tra bod eu swyddog cyllid ar gyfnod mamolaeth. Mae Lliwen yn parhau i gynnig gwasanaeth cyflogres ar ran Cyngor Gwynedd ar gyfer cyflogwyr sy'n derbyn taliadau uniongyrchol gyda'r bwriad o ddatblygu hyn ymhellach eto efo'r Cyngor yn 2026.

Mae Lliwen bellach yn cynnig gwasanaeth cyllid a chadw llyfrau i 3 o fusnesau lleol yn rheolaidd ac yn cynnig gwasanaeth cyflogres i 6 o fusnesau lleol yn fisol. Mae'r gwasanaeth i helpu gyda hunan asesiadau yn boblogaidd gyda nifer o unigolion yn dod i fewn am help i sefydlu i fod yn hunan gyflogedig ac/neu yn chwilio am gymorth i gwblhau hunanasesiad. Yn ystod yr hanner olaf o'r flwyddyn llwyddodd Lliwen i helpu 10 unigolyn gyda hyn.


Mae Lliwen wedi bod yn rhan o brosiect pellach i lawr ym Maesgeirchen sef prosiect MaesNi a ariannwyd gan Buildings Communities Trust, fel than o'r prosiect yma mae Lliwen wedi bod yn darparu gwasanaeth cyflogres a rheoli llinell i 3 aelod o staff i lawr ym Maesgeirchen yn ogystal â bod yn rhan o'r grwp llywio ar gyfer datblygu'r prosiect yn y gymuned.



# Canolfan Cefnfaes

Mae'r ystafelloedd sydd wedi'u hadnewyddu yng Nghanolfan Cefnfaes bellach wedi bod ar agor ers canol 2023. Mae'n bosibl archebu ystafelloedd yng Nghefnfaes, desgiau yn y gofod cydweithio Cydweithfa, Llys Dafydd, a beiciau o Beics Ogwen ar ein platfform Simply Book: https://partneriaethogwen.simplybook.it/v2/

Mae'r Ystafell Gymunedol a'r gegin yn cael eu harchebu'n rheolaidd ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd gan gymdeithasau lleol, colegau, gweithwyr iechyd a grwpiau cymunedol.




Mae gofod cydweithio - Cydweithfa - wedi bod ar agor ers Ionawr 2024, ac rydym yn falch o allu adrodd bod y lle wedi tyfu'n aruthrol o ran poblogrwydd yn ystod 2025. Bellach mae gennym 6 desg sydd wedi'u rhentu allan am gyfnod hir, gan ein gadael efo cwpl o ddesgiau sydd ar gael i'w rhentu'n achlysurol.

Mae Canolfan Cefnfaes hefyd yn gartref i dri thenant masnachol ar hyn o bryd - Black Dragon Martial Arts, Relics Plastic Recycling, a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau. Mae'r Clwb Ieuenctid hefyd yn defnyddio'r ystafelloedd ar y llawr gwaelod ar gyfer eu cyfarfodydd wythnosol.

PARTNERIAETH OGWEN

# CANOLFAN CEFNFAES

Gofod Gwneud

Mae Gofod Gwneud yn rhoi mynediad i bobl leol at beiriannau fel torrwr laser, torrwr finyl, argraffydd 3d, argraffydd sychdarthiad ac offer gwnïo.

*The Gofod Gwneud Maker Space gives locals access to machines such as laser cutter, vinyl cutter, 3d printer, sublimation printer and sewing equipment.*





Gofod cydweithio gyda desgiau ar gael i'w llogi yn y tymor byr a'r tymor hir.

*Co-working space with desks available for short and long term hire.*

CYDWEITHFA

BEICS OGWEN

Mae Canolfan Cefnfaes yn gartref i weithdy Beics Ogwen a chanolfan llogi beiciau.

*Canolfan Cefnfaes is home to the Beics Ogwen workshop and bike rental centre.*



Black Dragon

RELIC

3 TENANT MASNACHOL

COMMERICAL TENANTS




*Dyluniad pensaerniol o ganolfan Yr Hen Bost*

## Yr Hen Bost

Canolfan dreftadaeth a gofod ar gyfer busnesau bach fydd yn Yr Hen Bost sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Bartneriaeth Ogwen. Mae'r prosiect yn ail-ddefnyddio adeilad segur ac adfeiliedig yn ganolfan ddeinamig ar gyfer cadwraeth treftadaeth a mentrau lleol. Wrth wneud hynny, y bwriad yw creu canolbwynt newydd i'r pentref a hwb i'n heconomi leol a'n stryd fawr.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2025, ac mae tîm y prosiect wedi treulio rhan fwyaf o'u hamser eleni'n gweithio gyda'r tîm dylunio o PegwA, Grosvenor Construction Ltd a phartneriaid eraill i wneud cynnydd ar y gwaith adeiladu. Rydym ar hyn o bryd yn disgwyl bod mewn sefyllfa i agor ym mis Awst 2026.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i greu perthnasoedd â phartneriaid fel Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru, Storiel, Castell Penrhyn, Llechi Cymru ymhlith eraill i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fenthyca gwrthrychau o arwyddocâd lleol o gasgliadau. Cyflwynwyd y cais cyntaf i Amgueddfa Cymru i fenthyca brasluniau o Chwarel Penrhyn gan ME Thompson i greu arddangosfa gyntaf y Ganolfan Dreftadaeth.

Yn gynnar yn 2026, bydd tîm y prosiect yn dechrau rhaglen o ymgysylltu â'r cyhoedd i ddarganfod straeon lleol sy'n gysylltiedig â'r brasluniau. Bydd y mewnbwn cymunedol hwn yn hanfodol i'n dehongliad o'r arddangosfa, a bydd yn ychwanegu gwerth at y brasluniau pan fyddwn yn eu trosglwyddo'n ôl i'r amgueddfeydd.

Datblygiad cyffrous pellach yw'r llechi cerfiedig ar gyfer tu allan y ganolfan dreftadaeth. Mae'r artist lleol Ann Catrin Evans a'i mab Jo Twm yn cydweithio i greu celf drawiadol yn seiliedig ar lechi cerfiedig traddodiadol. Bydd y paneli llechi hyn yn gorchuddio llawr cyntaf ac ail lawr estyniad Yr Hen Bost.






PARTNERIAETH OGWEN

# LLWYBR TRAWSNEWID 2025

## CREU BUDD ECONOMAIDD

**305**

desg wedi cael ei llogi yn achlysurol yn y Gydweithfa



**6**

desg yn cael ei llogi yn hir dymor yn y Gydweithfa

Cynnig gwasanaeth cyllid a chadw llyfrau i

**3**

o fusnesau lleol yn rheolaidd

Cynnig gwasanaeth cyflogres i

**6**

o fusnesau lleol yn fisol.

**22**

o bobl Cymraeg, lleol yn cael eu gyflogi

Cymraeg

Wedi helpu

**10**

unigolyn i gwblhau hunanasesiad.

**72**

o sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnig i staff

**90%**

o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flywddyn

# MATERION CORFFORAETHOL

**Marchnata, Ymgysylltu a Chyhoeddusrwydd**

Mae Partneriaeth Ogwen yn cynnal gwefannau www.partneriaethogwen.cymru a www.ogwen.cymru/www.ogwen.wales. Rydym hefyd yn cynnal cyfrifon Facebook - Ynni Ogwen, Siop Ogwen, Dyffryn Gwyrdd, Beics Ogwen, Hwb Ogwen a Petha gan ddiweddaru'r tudalennau hyn yn gyson. Mae gennym hefyd gyfrifon Trydar @PartneriaethOg a @YnniOgwen, cyfrifon Instagram @partneriaethogwen a siop_ogwen, Partneriaeth Ogwen ar LinkedIn, a @partneriaethogwen ar TikTok. Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu dilyn gan dros fil o ddilynwyr. Mae'r holl waith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cael ei rannu rhwng staff craidd y Bartneriaeth, ac mae Swyddog Marchnata (Abbie Jones tan Awst 2025, a bellach Anna Jones) yn cefnogi staff i wella ein dulliau marchnata. Mae gennym hefyd sianelau Youtube a sianel ar www.amam.cymru.

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn derbyn ceisiadau i siarad gyda mudiadau lleol a chenedlaethol am ein prosiectau a rydym yn cynnal ymweliadau cyson â'n prosiectau. Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys grwpiau cymunedol fel Cymunedoli Cyf a mudiadau fel Cymdeithas Dai ADRA.  Mae'n staff hefyd yn rhoi cyflwyniadau am ein gwaith mewn cynadleddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru a mae'n sefydliad yn cael ei broffilio mewn nifer o astudiaethau achos.

## Rhwydweithiau a Phrosiectau Partneriaethol

Rydym yn parhau i bartneriaethu gyda sefydliadau eraill ar draws Gwynedd a thu hwnt i ehangu ein gwaith, ymgyrchu dros y sector a chael mynediad at grantiau pellach. Mae'r cydweithio gyda 33 o fentrau cymunedol ar draws Gwynedd yn parhau drwy Cymunedoli Cyf.


## Ffrydiau Incwm Partneriaeth Ogwen

Ers ein sefydlu yn 2013, rydym wedi cynyddu ein ffrydiau incwm fel sefydliad. Yn wreiddiol, darparu gwasanaeth clercio oedd prif ffynhonnell incwm y sefydliad ond bellach, dim ond 8% o'n incwm yw'r gwasanaeth clercio gyda rhenti yn gyfwerth ag 7% o'n incwm. Mae'n cyfrifon eleni yn adlewyrchu cynnydd eto yng ngwerth y grantiau rydym yn eu denu i'r ardal gyda 80% o'n incwm. Y prif grantiau a ddaeth i fewn yn 2024 -25 oedd grant y Loteri Cymunedol tuag at prosiect Dyffryn Caredig ac amrywiaeth o grantiau gan Cyngor Gwynedd tuag at Hwb Ogwen. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gweinyddol yn ffrwd incwm rydym yn rhagweld y bydd yn tyfu dros y flwyddyn i ddod. Yn bennaf oherwydd mwy o ansicrwydd am grantiau cyhoeddus a'n dymuniad i warchod swyddi gan gadw'r tîm o staff arbennig sydd gennym yn y sefydliad.


Yn ogystal â dadansoddi ein incwm a gwariant fel sefydliad, rydym bellach yn ceisio edrych ar yr arbedion ariannol mae ein gwaith ni'n ei greu i'r gymuned. Mae nifer o'n prosiectau yn arbed arian yn uniongyrchol ac anuniongyrchol e.e. pecynnau bwyd Hwb Ogwen yn arbed costau i deuluoedd lleol a'r cyngor budd-daliadau yn gallu helpu unigolion i arbed symiau sylweddol o arian.

# CRYNODEB ARIANNOL

Mae Partneriaeth Ogwen yn llwyddo i ddenu nifer o grantiau yn flynyddol




Gwariant Partneriaeth Ogwen yn ystod 2023/24 a 2024/25




CYFANSWM INCWM YN YSTOD 2024/25 = **£1,288,465.50**
CYFANSWM GWARIANT YN YSTOD 2024/25 = **£1,212,460.30**

PARTNERIAETH OGWEN



# CASGLIAD

**Diweddglo**

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i gyflawni a mynd tu hwnt i'r targedau yn ein Llwybr Trawsnewid a braf yw gweld ein prosiectau'n gwneud gwahaniaeth yn lleol. Mae hyn o ganlyniad i waith caled staff a gwirfoddolwyr sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i'n cymuned, economi, iaith a diwylliant ac amgylchedd.

Hoffai'r staff ddiolch i'r holl wirfoddolwyr ar ein Bwrdd a'r rhai sy'n helpu gyda'n prosiectau am eu cymorth a'u cefnogaeth.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn brysur a chynhyrchiol arall yn 2025-26.

www.partneriaethogwen.cymru
01248 602 131
partneriaeth@ogwen.org
partneriaethogwen

